Cymhorthdal Incwm

Mae cymhorthdal incwm ar gael i unrhyw un sydd heb ddigon o arian i fyw, ac sy'n methu gweithio. Gallai hyn fod oherwydd eich bod yn methu gweithio o ganlyniad i anabledd meddyliol neu am eich bod yn gofalu am rywun.

Ni fyddwch yn gallu ei gael os ydych chi:

- dan 16 oed
- dros 59 oed
- yn gallu gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos
- yn byw gyda phartner sy'n gweithio mwy na 24 awr yr wythnos
- yn berchen ar fwy na £16,000 o gynilion (yn cynnwys cynilion eich partner).

Awgrym Hafal: Os ydych chi'n byw gyda rhywun fel pe baech chi wedi priodi, neu fel partneriaid sifil, mae'r asiantaeth budd-daliadau yn eu trin fel eich partner wrth gyfrif faint o fudd-daliadau y mae gennych chi hawl iddynt.

Awgrym Hafal: Os oes gennych chi hawl i lwfans gofalwyr neu os ydych chi wedi cael lwfans byw i'r anabl, efallai y gallwch chi gael mwy o gymhorthdal incwm.

Gallwch hawlio cymhorthdal incwm os ydych chi'n gweithio hefyd, cyn belled â'i fod yn dilyn y rheolau newydd ar gyfer gwaith a ganiateir, sef:

- y gallwch chi ennill hyd at £20 yr wythnos am gyfnod amhenodol, neu,
- os ydych chi'n gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos, y gallwch ennill hyd at £81 yr wythnos am 52 wythnos. Gallwch wneud hyn eto os byddwch chi'n cymryd saib o weithio am 52 wythnos yn gyntaf, neu
- y gallwch chi ennill hyd at £81 yr wythnos am gyfnod amhenodol os ydych chi'n gwneud 'gwaith a ganiateir gyda chefnogaeth'. Byddai hyn yn cael ei wneud gyda chefnogaeth sefydliad sy'n dod o hyd i waith ar gyfer pobl gydag anableddau, a gallai gynnwys gwaith dan oruchwyliaeth feddygol fel rhan o raglen triniaeth ysbyty.

Awgrym Hafal: Gallwch warchod eich budd-dal pan fyddwch chi'n mynd yn ôl i weithio, sy'n golygu y gallech chi, os bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i weithio eto o fewn 52 wythnos, ailddechrau cael yr un swm o gymhorthdal incwm ag yr oeddech chi'n ei gael cyn dechrau gweithio.

Os oes gennych chi forgais, ni fyddwch yn gallu hawlio budd-dal tai, ond gallwch gael rhywfaint o help i wneud y taliadau os ydych chi'n cael cymhorthdal incwm. Dim ond ar ôl i chi hawlio cymhorthdal incwm am 39 wythnos y bydd hyn yn bosibl, a dim ond i'r llog ar y morgais y mae'n berthnasol.

Os byddwch chi'n mynd i mewn i ysbyty, mae angen i chi adael i'r swyddfa budd-daliadau wybod. Fydd dim yn digwydd i'ch cymhorthdal incwm ar unwaith, ond ar ôl 4 wythnos, bydd yn cael ei ostwng os byddwch chi'n cael y premiwm anabledd difrifol. Ar ôl 52 wythnos, bydd pob premiwm anabledd yn dod i ben, gan ostwng eich cymhorthdal incwm ymhellach.

Awgrym Hafal: Mae bod â hawl i gael cymhorthdal incwm yn golygu bod gennych chi hawl uniongyrchol i gael budd-dal tai, budd-dal treth cyngor, presgripsiwn am ddim, gofal deintyddol am ddim a phrydau ysgol am ddim i'ch plant.

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Canllawiau yn unig yw'r wybodaeth yn y daflen wybodaeth yma. Am gyngor manwl, cysylltwch â'ch swyddog Hawliau Lles lleol neu eich swyddfa Cyngor am Bopeth.

Taflenni Gwybodaeth
hafal@hafal.org
01792 816 600
www.hafal.org